| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **13 MEDI 2023** |
| **TEITL:** | **EITEM FRYS - GWRTHWYNEBIAD I GAIS EISIADAU DIGWYDDIAD DROS DRO – BRAICH GOCH INN, CORRIS** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. <u>CAIS A DDERBYNIWYD</u>

1.1 Atodir cais rhybudd digwyddiad dros dro , gan Maria De La Pava Catano ar gyfer Braich Goch Inn, Corris Machynlleth SY20 9RD ar gyfer ymestyniad oriau gweithgareddau trwyddedig tu mewn i'r eiddo ar gyfer achlysur codi arian at elusennau ar y 22ain o Fedi 2023.

1.2 Mae gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r cais gan Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd oherwydd na fu i'r ymgeisydd ymateb i e bost yn gofyn am drafodaeth i gyfaddawdu ar yr oriau a ofynnir , ac oherwydd fod cwynion sŵn cerddoriaeth wedi eu derbyn mis Medi 2022 yn dilyn cynnal cerddoriaeth yn hwyr heb awdurdod Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i ymestyn oriau .

1.3 Dim ond y Cyngor yn gweithredu ei gyfrifoldebau Iechyd Amgylchedd a'r Heddlu sydd gyda'r grym i wrthwynebu rhybudd digwyddiad dros dro. Nid oes trefn o ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y gyfundrefn digwyddiadau dros dro.

1.4 Oherwydd fod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn unol ac adran 104 o'r Deddf Drwyddedu , mae'r cais yn cael eu cyfeirio atoch chwi fel Is Bwyllgor am benderfyniad. Mae manylion y cais fela ganlyn, a chopi yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

1.5 Gofynnir am yr hawl yn y Rhybudd Digwyddiad Dros Dro am y canlynol yn ychwanegol i'r drwydded eiddo –

- Defnyddio'r ardal mewnol y bar sydd wedi ei gysylltu i adeilad y bunkhouse ar gyfer gwerthu alcohol a chynnal cerddoriaeth byw hyd at 11 yr hwyr a DJ tan 02:00 y bore
- Bwriedir darparu gweithgareddau trwyddedig ar gyfer uchafswm o 100 o bobl

## 2. Trwydded gyfredol

2.1 Mae'r drwydded eiddo gyfredol a ganiatawyd gan y Pwyllgor hwn yn 2019 yn caniatáu i'r eiddo fod yn gwerthu alcohol gyda'r hawl i chwarae cerddoriaeth ( byw ac wedi ei recordio) tu mewn yn unig yn unol a chytundeb a gafwyd gyda'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd oherwydd pryderon sŵn.Mae'r oriau fel a ganlyn –

- Llun - Iau 22:30
- Gwen – Sad 00:00
- Sul 22:00

## 3 Sail gwrthwynebu a thystiolaeth

3.1 Mae'r gwrthwynebiad wedi ei gyflwyno gan Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd oherwydd pryder fod y digwyddiad yn mynd i danseilio yr amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal niwsans cyhoeddus

3.2 Yn benodol, mae swyddogion y gwasanaeth wedi derbyn 2 gwyn am aflonyddwch oherwydd sŵn cerddoriaeth mis Mai 2022 diwethaf tan 01:30, tu hwnt i'r oriau a ganiateir ar y drwydded. Nid oedd rhybudd digwyddiad dros dro mewn lle i ganiatáu 'r gweithgareddau trwyddedig tu hwnt i'r hyn a ganiateir ar y drwydded.

3.3 Mewn e bost at ddeilydd y drwydded ar y 21 o Awst, oherwydd fod cwynion sŵn o weithgareddau trwyddedig heb awdurdod wedi eu derbyn mis Mai 2022 , nodwyd fod yr oriau terfynu adloniant rheoledig yn 02:00 ar y cais ac y byddai y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn fodlon cynnig cyfaddawd o ganiatáu terfynu gweithgareddau trwyddedig am 00:30 hanner awr yn hwyrach na'r drwydded bresennol. Nodwyd fod hyn yn gyfaddawd teg, ac y byddai yn rhoi cyfle i ddeilydd y drwydded brofi eu gallu i drefnu adloniant heb aflonyddu ar breswylwyr cyfagos.

3.4 Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r cynnig o gyfaddawd gan yr ymgeisydd.

Gweler manylion llawn gohebiaeth Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd gyda'r ymgeisydd yn yr atodiad.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y cais rhybudd digwyddiad dros dro yn cael ei WRTHOD ar sail

- Cwyn o gynnal gweithgareddau trwyddedig tu hwnt i derfyn amser y drwydded
- Cwynion o aflonyddwch sŵn yn dilyn adloniant a gynhaliwyd mis Mai 2022
- Diffyg yr ymgeisydd i ymateb o gwbwl i gynnig o gyfaddawd ar yr oriau a ofynnwyd amdanynt; fel fod y digwyddiad yn cael caniatâd i fynd yn ei flaen